



---

**Gofynion Technegol a Chyfleu ar gyfer Cynnwys Ffurf Fer S4C  
Medi 2018**

---

## 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ynghylch y safonau technegol a'r deunyddiau cyfleu y mae S4C yn gofyn amdanynt gan gynhyrchwyr wrth gynhyrchu a chyfleu Cynnwys Ffurf Fer. Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyfleu sy'n benodol i Gynnwys Ffurf Fer S4C yn y cytundeb comisiynu perthnasol. Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol S4C yn darparu rhagor o wybodaeth am ofynion golygyddol a chydymffurfiaeth y cynnwys ffurf fer. Cyfeiriwch at 'Safonau Technegol Cyfleu Rhaglenni Teledu i S4C' o ran cyflwyno rhaglenni teledu.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:
- **Gofynion o ran Math o Ffeil**, gan gynnwys enwi ffeil a manylion cyfleu.
  - **Cyfleu gwybodaeth Ffurf Fer i S4C** – gofynion cyfleu PAC ('rhaglen orffenedig').
  - **Cyfleu gwybodaeth Ffurf Fer i Gydlynnydd Cynhyrchu S4C** (lle bo hynny'n berthnasol).

## 2. Cyfrifoldeb a Chysylltiadau o ran Ffurf Fer:

- 2.1 **Cyfrifoldeb Cyffredinol**  
Comisiynydd Cynnwys Arlein – Rhodri ap Dyfrig [rhodri.apDyfrig@s4c.cymru](mailto:rhodri.apDyfrig@s4c.cymru)
- 2.2 **Cyswllt Technegol**  
Pennaeth Gwasanaethau Darlledu – Jim Hennefer [jim.hennefer@s4c.cymru](mailto:jim.hennefer@s4c.cymru)
- 2.3 **Materion Busnes a Hawliau**  
Tîm Materion Busnes a'r Gweinyddwr Hawliau – [mb@s4c.cymru](mailto:mb@s4c.cymru)

## 3. Gofynion Technegol

### 3.1 **Gofynion o ran Math o Ffeil Archif 402a a 402g**

Dylai cynnwys ffurf fer a gaiff ei gyfleu'n uniongyrchol i S4C gydymffurfio â'r canlynol:

1 x Quicktime eglurder uchel (cywasgiad H.264 neu uwch) gydag isafswm cyfradd bit o 10mps  
1 x ffeil Quicktime eglurder isel ac eithrio â chytundeb arbennig ag S4C

Y fformat a ffeirir yw 1920 x 1080 ond os ydych chi wedi saethu eich ffilm ar 720p, anfonwch hi atom fel 1280 x 720 yn hytrach na'i chwyddo.

Rydym yn derbyn 16:9 1:1 9:16 a 360 gradd hefyd; fodd bynnag, trafodwch hyn â ni cyn cyfleu.

Gwnewch yn siŵr y caiff yr holl sain ei gyfleu fel PCM Unionlin (Heb ei gywasgu), 24-bit, 48kHz.

Os bydd y cynnwys ffurf fer yn cael ei gyfleu i gydlynnydd cynhyrchu enwebedig S4C, sylwer ei fod yn bosibl y bydd gan y cydlynnydd ei ofynion technegol penodol ei hun. Os bydd y gofynion hyn yn wahanol i'r uchod, fe'u nodir yn y cytundeb comisiynu.



### 3.2 Gofynion o ran Enwi Ffeil

Rhaid i ffeiliau rhaglenni a gyflwynir i S4C gael eu henwi fel a ganlyn:

**Fformat Gofynnol Enw Ffeil Rhaglen**

XXXXXX\_XXX\_Vnn\_Dsc.mp4

**Enw Ffeil Enghreifftiol**

I26555\_004\_V02\_MAS.mp4

Rhif Cynhyrchu (5 i 10 Nod)\_Rhif y Bennod (3 digid), Rhif y Fersiwn (3 digid)\_Disgrifydd Math (3 Nod)\_. Er enghraifft, byddai ffeil â'r rhif cynhyrchu I26555, Rhif y Bennod 4, Fersiwn 2, yn cael ei henwi fel y dangosir uchod.

Nodwch fod yn rhaid i'r "V" am Fersiwn neu 'Version' fod yn briflythyren a rhaid i'r enwau estyn fod yn llythrennau bach.

Gellir dod o hyd i'r rhif cynhyrchu ar y Briff yng Nghwmwl Cynhyrchu S4C

### 4. Gofynion Cyfleu ar gyfer Cynnwys Ffurf Fer

4.1 Bydd y cytundeb comisiynu yn nodi gofynion S4C o ran cyfleu at ddibenion cyhoeddi'r cynnwys ffurf fer a chyfleu ffeiliau i S4C at ddibenion archifo a chydymffurfiaeth ar wahân. Yn achos rhai cynyrchiadau penodol, megis 'Hansh', mae'n bosibl y bydd S4C yn enwebu cydlynnydd cynhyrchu i hwyluso cyhoeddi'r cynnwys ffurf fer ar draws cyfrifon ar nifer o blatfformau. Bydd unrhyw gydlynnydd o'r fath yn cael ei nodi yn y cytundeb comisiynu.

#### 4.2 **Cyfleu at ddibenion Cyhoeddi:**

Cod	Deunydd	Nodiadau
402a	Cynnwys Ffurf Fer S4C	Bydd y dull cyhoeddi yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r Comisiynydd Cynnwys Arlein fel rhan o'r broses gomisiynu

#### 4.3 **Bydd y cytundeb comisiynu'n nodi'r dull cyhoeddi a'r amserlen a gytunir.**

Mae dulliau cyhoeddi'n cynnwys:

- a) Cyfleu cynnwys ffurf fer i S4C drwy'r system rheoli cynnwys berthnasol (fel y nodir yn y cytundeb comisiynu) neu fel y cytunir fel arall ag S4C;
- b) Cyfleu cynnwys ffurf fer yn uniongyrchol i'r cyfrif(on) platfform perthnasol drwy system rheoli cynnwys neu fel y cytunir fel arall ag S4C; neu
- c) Cyfleu cynnwys ffurf fer i gydlynnydd cynhyrchu enwebedig S4C drwy borth cyfleu ffeiliau ar-lein, e.e. WeTransfer neu fel y cytunir fel arall ag S4C.

#### 4.4 **Cyfleu at ddibenion archif a chydymffurfiaeth:**

Cod	Deunydd	Nodiadau
402g	Ffeil Archif (Dim Darllediad)	I'w chyfleu i S4C drwy Borth Signiant neu drefniant arall fel y cytunir ymlaen llaw ag Adran Dechnegol S4C
405a	Y Ffurflen Gyfleu Ffurf Fer	I'w chyfleu drwy'r system PAC ar-lein
405b	Crynodeb Cynnwys y Ffeil Archif	I'w chyfleu drwy'r system PAC ar-lein
407	Y Ffurflen Gyfraniadau	I'w chyfleu drwy'r system PAC ar-lein
408	TaflenGerddoriaeth	I'w chyfleu drwy'r system PAC ar-lein

409	Manylion Artistiaid (Os yw'n berthnasol)	I'w cyfleu drwy'r system PAC ar-lein
413	Ffurflen Deunydd Trydydd Parti (Os yw'n berthnasol)	Y ffurflen i'w llenwi yn Word a'i hanfon drwy e-bost yn uniongyrchol at <a href="mailto:pac_b@s4c.cymru">pac_b@s4c.cymru</a>
414	Lluniau ar gyfer Platfformau Gwe	Dewis o 2 ddelwedd eglurder uchel i'w defnyddio fel cryno-luniau a deunydd marchnata posibl arall ar gyfer pob fideo. Isafswm manyleb o 1920 x 1080.  Cyfleu drwy e-bost at: <a href="mailto:lluniau@s4c.cymru">lluniau@s4c.cymru</a>  Gweler y canllawiau am fanylion:  <a href="http://www.s4c.cymru/media/media_assets/canllawiau-lluniau.pdf">http://www.s4c.cymru/media/media_assets/canllawiau-lluniau.pdf</a>

#### 4.5 Manylion Cyfleu Ffeil Archif S4C (at ddibenion archifo a chytundebol yn unig)

Mae angen i'r rhain gael eu cyfleu fel ffeiliau AS11 (.mxf) ac fel arfer, fe'u cyfleuir i S4C drwy:

- 1. Asiant Signiant**  
Yn achos cwmnïau sydd â gwasanaeth Signiant eisoes  
Bydd angen i chi ddarparu manylion mewngofnodi porth i S4C a'i hysbysu  
[CyfleuFfeiliau@S4C.cymru](mailto:CyfleuFfeiliau@S4C.cymru) ([FileDelivery@S4C.cymru](mailto:FileDelivery@S4C.cymru))
- 2. Gwasanaeth Signiant Media Shuttle S4C**  
Bydd angen i chi gysylltu ag S4C cyn gallu defnyddio porth S4C
- 3. Drwy drefniant arall y cytunwyd arno ymlaen llaw â'r Pennaeth Gwasanaethau Darlledu.**

#### 4.6 Cyfleu Gwybodaeth am y Cynnwys Ffurf Fer

##### System PAC S4C

Fel rhan o'r deunyddiau cyfleu, mae'n ofynnol i gwmnïau ddarparu'r wybodaeth ffurf fer drwy system PAC S4C. Gellir dod o hyd i'r system a'r ffurflenni perthnasol drwy ddilyn y ddolen hon – <http://pac.s4c.cymru>. Cysylltwch â'r Adran Materion Busnes yn y lle cyntaf i gael mynediad i'r system. Mae cyfleuster cymorth ar gael o fewn y system ei hun, ond os oes angen cymorth pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Sylwer, lle caiff y cynnwys ffurf fer ei gyfleu i gydlynedd enwebedig S4C, bydd angen y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon ar y cydlynedd hefyd. Gweler rhan 5 isod am ragor o fanylion.

Bydd y dyddiadau cyfleu ar gyfer y wybodaeth hon wedi'u nodi yn y cytundeb comisiynu.

***Y wybodaeth gyfleu sy'n ofynnol drwy'r system PAC yw:***

**Gwybodaeth sy'n ofynnol cyn neu wrth gyfleu'r ffeil:**

- Dylai **405a Ffurflen Gyfleu Ffurf Fer** ddod gyda'r ffeil. Nodir y dyddiad cyfleu yn y cytundeb. Mae'r ffurflen hon yn darparu gwybodaeth hanfodol sy'n ofynnol gan nifer o adrannau S4C i'w galluogi i gydymffurfio â'u gwahanol rwymedigaethau statudol.
- **405b Crynodeb Cynnwys y Ffeil Archif:** Crynodeb o'r rhaglen (100 o eiriau) – gwybodaeth am gynnwys y ffeil / deunydd ffurf fer.
- Manylion unrhyw gynnwys 'cryf' neu 'annisgwyl' o fewn y deunydd.

### Gwybodaeth rhaglen i'w chyfleu'n fuan wedi'r ffeil cynnwys ffurf fer:

- **407 Y Ffurflen Gyfraniadau:** Dylid nodi unrhyw gyfranwyr i'r deunydd yn yr adran hon. Cedwir y wybodaeth hon ar system BSM S4C ac mae'n darparu data gwerthfawr ynghylch cynnwys rhaglenni a chyfranwyr dros y blynyddoedd. Lle, yn eithriadol, mae'r cynnwys ffurf fer yn cynnwys cyfraniadau gan artistiaid, ni ddylid cynnwys yr unigolion hynny. Dylid cynnwys manylion yr unigolyn yn yr achos hwn ar y ffurflen Artistiaid (gweler isod).
- **408 Taflen Gerddoriaeth:** Mae'n ofynnol i S4C adrodd i'r cymdeithasau casglu bob pythefnos. Caiff y wybodaeth ar y ffurflen hon ei hadolygu a'i hanfon ymlaen at gymdeithasau casglu megis PRS for Music a PPL.
- **409 Manylion Artistiaid:** Fel rheol, bydd S4C yn disgwyl i gynnwys ffurf fer gael ei 'brynu allan' yn llwyr. Mewn achosion eithriadol a dim ond lle y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Comisiynydd Cynnwys Arlein, dylid defnyddio'r ffurflen hon i nodi unrhyw artistiaid y mae ffioedd ailddarlledu'n ddyledus ar gyfer eu cyfraniadau. Sylwer y dylech gynnwys hefyd unrhyw wybodaeth ynglŷn â ffioedd a dalwyd am ddefnyddio clip neu glipliau o fewn rhaglen, os talwyd ffi i'r artist, yr awdur neu'r cerddor o dan delerau cytundeb undeb (Equity, Undeb yr Ysgrifenyddwr neu Undeb y Cerddorion). Bydd S4C yn seilio unrhyw ffioedd ailddarlledu ar y wybodaeth yn yr adran hon. Yn yr un modd â'r 'Manylion Cyfranwyr', mae'r wybodaeth hon hefyd yn ddefnyddiol iawn i alluogi cynnal chwiliad ar gynnwys rhaglenni yn y dyfodol.

### Cyfeiriwch at yr adran PAC yn y ddogfen Gofynion Cyfleu Rhaglenni am ragor o gymorth gyda'r uchod:

[http://www.s4c.cymru/media/media\\_assets/20170215\\_Gofynion\\_Cyfleu\\_S4C\\_Mawrth\\_2016.pdf](http://www.s4c.cymru/media/media_assets/20170215_Gofynion_Cyfleu_S4C_Mawrth_2016.pdf)

### Gwybodaeth sydd ei hangen ac eithrio drwy'r system PAC:

#### Gwybodaeth sydd ei hangen cyn neu wrth gyfleu ffeil:

- **414 Lluniau ar gyfer Platfformau Gwe**  
Dewis o 2 ddelwedd eglurder uchel i'w defnyddio fel cryno-lluniau a deunydd marchnata posibl arall ar gyfer pob fideo. Isafswm manyleb o 1920 x 1080. Cyfleu drwy e-bost at: [lluniau@s4c.cymru](mailto:lluniau@s4c.cymru)

Mae canllawiau o ran arddull ar gael yn:

[http://www.s4c.cymru/media/media\\_assets/canllawiau-lluniau.pdf](http://www.s4c.cymru/media/media_assets/canllawiau-lluniau.pdf)

### Gwybodaeth am raglen i'w chyfleu'n fuan wedi'r ffeil cynnwys ffurf fer:

- **413 Ffurflen Deunydd Trydydd Parti**  
Fel rheol, bydd S4C yn disgwyl i gynnwys ffurf fer gael ei 'brynu allan' yn llwyr. Os nad yw'r cynnwys ffurf fer yn cynnwys unrhyw ddeunydd trydydd parti, anfonwch e-bost at [pac\\_b@s4c.cymru](mailto:pac_b@s4c.cymru) gan nodi'r rhif cynhyrchu i gadarnhau'r ffaith. Mewn achosion eithriadol a dim ond lle y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Comisiynydd Cynnwys Arlein, dylid defnyddio'r ffurflen hon i nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti a ddefnyddiwyd, e.e. os yw'r cynnwys ffurf fer yn cynnwys unrhyw gynnwys sydd eisoes yn bodoli ac yn eiddo i drydydd parti. Gallai hyn fod yn ddelwedd lonydd, rhannau o raglenni eraill, rhaglenni archif neu unrhyw ddeunydd arall sydd o fewn hawlfraint.

Nid yw'n bosibl hyd yma i lenwi'r ffurflen hon ar y system PAC. Gellir dod o hyd i gopi ar ffurf Word ar wefan cynhyrchu S4C yn yr adran 'Ffurflenni' [http://www.s4c.co.uk/media/media\\_assets/Canllawiau\\_a\\_Ffurflenni\\_PAC.doc](http://www.s4c.co.uk/media/media_assets/Canllawiau_a_Ffurflenni_PAC.doc). Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi at y cyfeiriad e-bost canlynol: [pac\\_b@s4c.cymru](mailto:pac_b@s4c.cymru).

## Cyfleu Dogfennau Atodol

Gofynnwn i gwmnïau anfon copïau o gytundebau neu unrhyw ddogfennaeth i gadarnhau'r manylion a ddarperir ar y system PAC. Nodir y dyddiadau cyfleu ar gyfer y dogfennau atodol hyn yn y cytundeb comisiynu.

Mewn achosion eithriadol lle nad yw'r cynnwys ffurf fer wedi'i brynu allan yn llwyr, gofynnir i gynhyrchwyr ddarparu copi o unrhyw gytundeb lle mae ffioedd pellach yn daladwy. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i

- Gytundebau artistiaid
- Cytundebau awduron
- Cytundebau cyfansoddwyr
- Cytundebau cerddorion
- Copïau o ffurflenni tâl ar gyfer unigolion a dderbyniodd dâl am glipiau/detholiadau o dan gytundeb undeb (neu ddogfen yn cadarnhau manylion cyswllt yr unigolyn).
- Cytundebau Deunydd Trydydd Parti
- Trwyddedau cerddoriaeth lle **nad** yw'r gerddoriaeth wedi'i chlirio drwy drwydded IPC yr MCPS.

Dylid cyfleu'r dogfennau hyn ar wahân i'r ffurflenni electroneg. Gellir anfon copïau at S4C yn y ffyrdd canlynol:-

- Drwy'r post at Adran Materion Busnes S4C
- Fel ffeil PDF drwy e-bost at [pac\\_b@s4c.cymru](mailto:pac_b@s4c.cymru)
- Drwy Dropbox neu wasanaeth tebyg

Cadarnheir **NA** fydd angen copïau o'r canlynol ar S4C:

- Cytundebau cyfranwyr lle nad oes unrhyw ffioedd ailddarlledu neu ddefnydd pellach yn ddyledus;
- Trwyddedau MCPS.

## 5. Gofynion Cyfleu wrth gyfleu Cynnwys Ffurf Fer i'r Cydlynnydd

5.1 Lle mae S4C yn gofyn am gyfleu cynnwys ffurf fer i'w gydlynnydd cynhyrchu enwebedig yn unol â rhan 4.3 c) uchod, dylai'r cynhyrchydd gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r cydlynnydd ynghyd â'r ffeil Cynnwys Ffurf fer:

- Enw'r eitem i'w ddefnyddio wrth gyhoeddi'r cynnwys ffurf fer
- Disgrifiad cryno
- Pobl neu bethau i'w tagio, e.e. enwau defnyddwyr Facebook a Twitter, hashnodau, neu URLs gwefannau sydd â chynnwys ychwanegol.
- Enwau cyfranwyr
- Gwybodaeth am gerddoriaeth, yn cynnwys rhif disg, enw a rhif trac, yn y drefn y'u defnyddir o fewn yr eitem fel yn achos ffurflenni PAC S4C gan y bydd angen adrodd ar hyn yn y fersiwn a gaiff ei ddarlledu.
- Gwybodaeth ynghylch deunydd trydydd parti, unwaith eto fel yn achos ffurflenni PAC S4C.
- Delwedd i'w defnyddio fel ffrâm / cryno-lun poster. Isafswm maint 1920 x 1080, JPEG neu PNG. Os yw'r lluniau'n cynnwys testun neu graffeg, dylech ddarparu fersiwn glân hebddynt.
- Os yw hynny'n berthnasol, ffeil isdeitlau SRT neu STL yn Gymraeg a/neu Saesneg. (Ni fydd y lliwiau EBU/STL traddodiadol yn ymddangos, felly defnyddiwch linell doriad hir i wahanu deialog).

5.2 Nodir y cyfeiriad cyfleu ar gyfer y wybodaeth uchod ac unrhyw ofynion technegol penodol yn y cytundeb comisiynu.